Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Datblygu pobl - Llysgenhadon Ifainc Ysgol Gymuned y Porth

Bob blwyddyn rydyn ni'n nodi ysgolion penodol i weithio gyda nhw'n agos. Eleni nodwyd ysgolion y Porth fel clwstwr penodol i'n carfan, ac un prif faes y penderfynon ni ei flaenoriaethu oedd arweinyddiaeth. Nod y rhaglen Llysgenhadon Ifainc yw datblygu sgiliau arwain pobl ifainc, felly penderfynon ni ddefnyddio'r rhaglen i greu tîm o arweinwyr ifainc ac esiamplau cadarnhaol, a fyddai'n ein helpu i wella cyfranogiad.

Ar ôl cyfarfod cychwynnol gyda'r ysgol, nodwyd grŵp o ferched ifainc i fod yn rhan o'r rhaglen. Gweithion nhw gyda ni i ddylunio a datblygu prosiect osgoi'r bêl i wella cyfranogiad yn eu hysgol. Daethon nhw i'n hachlysur Dragon's Den a chyflwyno'u syniad i gael cyllid. Fe wnaethon ni gefnogi eu syniad, ac fe ddechreuodd y prosiect. Ers hynny maen nhw wedi cynnal clwb osgoi'r bêl wythnosol i'w cyfoedion ac maen nhw hefyd wedi helpu i gynnal clwb i blant oed ysgol gynradd yn eu hysgol gymunedol. Mae rhai o'r grŵp hefyd wedi mentro allan i'r gymuned ac wedi cyflwyno sesiynau osgoi'r bêl mewn ysgol gynradd leol arall.

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, cynhalion ni Achlysur Dathlu i ddiolch i'r holl Lysgenhadon Ifainc am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Gwirfoddolodd y merched o'r Porth i fod yn rhan o'n carfan am y diwrnod, gan gynnal gweithgareddau a gemau llawn hwyl. Er mwyn diolch iddyn nhw, fe wnaethon ni dalu costau cyrsiau addysg hyfforddwyr Lefel 1 a 2 gyda British Dodgeball ar eu cyfer nhw. Eleni mae'r grŵp hefyd wedi helpu yn ein gwyliau i ysgolion cynradd ac wedi cyflwyno yn ein cynhadledd Llysgenhadon Ifainc Cwm Rhondda.

Mae wedi bod yn wych gweld y merched yn magu hyder ac yn ymgymryd â chyfleoedd a heriau newydd. Diolch i'w gwaith caled, mae cyfranogiad merched wedi gwella yn eu hysgol, sy'n gyflawniad gwych. Mae'r rhaglen Llysgenhadon Ifainc yn galluogi arweinwyr ifainc i leisio eu barn a gwneud newidiadau er gwell yn eu hysgol a'u cymuned. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r merched ac yn gobeithio eu gweld yn ymuno â'n tîm hyfforddi Chwaraeon RhCT yn y dyfodol.

> *"Rydw i mor falch o'r holl ferched. Maen nhw'n wych i'n hysgol a'r gymuned. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddechrau'r ddarpariaeth clwstwr a gweithio gyda'n gilydd a darparu rhagor o brofiadau i'n merched."* Athro
>
> *"Rwy'n teimlo fy mod i'n fwy hyderus. Rwy'n swil ac rwy'n meddwl bod yr hyfforddiant wedi fy helpu i beidio â bod mor swil mwyach."*
> Llysgennad Ifanc
>
> *"Rwyf wrth fy modd â'r hyn rydyn ni wedi bod yn ei wneud a gweithio gyda fy hen ysgol gynradd."*
> Llysgennad Ifanc

**12** o arweinwyr wedi'u recriwtio

Mae **74%** yn teimlo'n iachach

**100%** yn bwriadu parhau i gymryd rhan

**108** o gyfleoedd wedi'u creu

Mae **91%** yn teimlo'n fwy hyderus

**66%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

**720** o oriau wedi'u cyflwyno

Mae **88%** yn teimlo'n hapusach

RHONDDA CYNON TAF

52728-15